Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro
# Lefel y dilyniant: mesurau arbennig

**Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt**
**Ffordd y Coleg**
**Llanfair-ym-Muallt**
**Powys**
**LD2 3BW**

**Dyddiad yr ymweliad: Tachwedd 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Canlyniad y monitro

Bernir bod Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd yn Hydref 2015.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu'r ysgol oddi ar y rhestr o ysgolion sydd angen mesurau arbennig.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhellion 1: Codi safonau ym mhob cyfnod allweddol

Cynnydd boddhaol o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae data dros dro ar gyfer 2017 yn dangos bod perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 wedi gwella ym mwyafrif y dangosyddion ers yr arolygiad craidd, ac yn enwedig yn y rheiny sy'n cynnwys Saesneg a mathemateg. Mae graddau'r gwelliant hwn yn fwy na'r gwelliant cyfartalog mewn ysgolion tebyg ym mwyafrif y dangosyddion. Fodd bynnag, mewn llawer o ddangosyddion, nid yw perfformiad yn cymharu'n dda â pherfformiad mewn ysgolion tebyg. Er bod angen gwelliant pellach o hyd ar ddeilliannau ar ddiwedd cyfnod allweddol 4, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas mewn gwersi.

Mae perfformiad yn nhrothwy lefel 2, gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, wedi gwella bron i 10 pwynt canran dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Yn yr un modd, mae cyfran y disgyblion sy'n ennill pum cymhwyster TGAU neu raddau cyfwerth A*-A wedi gwella dros y ddwy flynedd ddiwethaf hefyd. Er y bu gwelliant mewn perfformiad yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio yn 2016, disgynnodd yn 2017 ac mae'n is nag ydoedd adeg yr arolygiad craidd erbyn hyn. Ym mhob un o'r dangosyddion hyn, mae perfformiad yn parhau islaw perfformiad ysgolion tebyg.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad mewn mathemateg wedi gwella ychydig dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac mae'n parhau i gymharu'n dda â pherfformiad mewn ysgolion tebyg. Yn ychwanegol, mae perfformiad mewn Saesneg wedi gwella dros 11 pwynt canran ers yr arolygiad craidd, er bod perfformiad mewn Cymraeg wedi gostwng.

Yn 2017, bu gwelliant ym mherfformiad bechgyn yng nghyfnod allweddol 4 ac roedd yn well nag ydoedd adeg yr arolygiad mewn hanner y dangosyddion. I ferched, roedd yr un fath mewn ychydig iawn o ddangosyddion yn unig.

Cyflawnodd holl ddisgyblion y chweched dosbarth drothwy lefel 3 yn 2017, yn unol â'r flwyddyn flaenorol. Serch hynny, mae eu perfformiad ym mhob un o'r dangosyddion eraill wedi disgyn, nid yw'n cymharu'n dda â lefelau mewn ysgolion tebyg, ac mae'n is nag ydoedd adeg yr arolygiad craidd.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas mewn gwersi. Maent yn datblygu eu dealltwriaeth o destunau sy'n amrywio o faledi ac agoriadau naratif i achosion Cwymp Wall Street yn dda. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion yn dangos gallu cyfyngedig i alw dysgu diweddar i gof, fel strwythur yr atom a sut y caiff hyn ei gynrychioli yn y tabl cyfnodol. Mewn rhai achosion, caiff cynnydd disgyblion ei rwystro gan eu methiant i fynd i'r afael â gwaith coll neu anghyflawn.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando gyda sylw a pharch ar eu hathrawon ac maent yn rhoi atebion llafar priodol, gan gynnwys rhannu eu syniadau a'u barn. Mae mwyafrif ohonynt yn darparu atebion clir sydd wedi'u datblygu'n addas, gan gynnwys defnyddio geirfa sy'n benodol i bwnc, ar destunau sy'n amrywio o arddulliau hedfan gwahanol adar i ddehongliadau o farddoniaeth a diffiniadau cywir o dermau a chysyniadau mathemategol. Fodd bynnag, nid yw atebion rhai disgyblion ar lafar yn ddigon eglur a manwl gywir, er enghraifft wrth iddynt geisio disgrifio sut i nodi'r gwerth canolrifol.

Mae gan lawer o ddisgyblion ystod addas o strategaethau darllen y maent yn eu defnyddio'n dda i gefnogi eu dysgu. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn darllen yn effeithiol i ddethol a dod o hyd i wybodaeth am destunau, gan gynnwys cymeriad Harri'r VIII a ffactorau tynnu a gwthio sy'n gysylltiedig â mewnfudo i America. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio rhesymu a dod i gasgliad yn briodol i gefnogi eu dealltwriaeth o gymeriadau llenyddol fel Macbeth a'i berthynas â'i wraig, a Lord Capulet a'i uchelgeisiau ar gyfer ei ferch, a'i berthynas newidiol â hi. Mae mwyafrif o ddisgyblion mewn Cymraeg a Saesneg fel ei gilydd yn dadansoddi cynnwys cerddi'n briodol. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn dethol digon o fanylion yn eu darllen. Yn aml, maent yn nodi nodweddion allweddol ond yn colli agweddau llai amlwg.

Mae llawer ohonynt yn cynhyrchu gwaith ysgrifennu sy'n dechnegol gadarn ac wedi'i strwythuro'n addas, gan gynnwys darnau naratif, traethodau amleiriog ar Shakespeare a dadansoddiadau hanesyddol cytbwys fel p'un a yw Harri'r VII yn haeddu'r teitl arwr o Gymro ai peidio. Mae rhai disgyblion yn mynegi'n effeithlon yn ysgrifenedig eu teimladau am ddarnau o gelf ac mae rhai disgyblion hŷn yn ysgrifennu'n huawdl gan fynegi ymatebion emosiynol yn aeddfed. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion yn defnyddio mynegiannau lletchwith ac yn parhau i wneud gormod o gamgymeriadau sylfaenol yn eu hysgrifennu.

Mae mwyafrif o ddisgyblion yn defnyddio rhifedd yn briodol, er enghraifft cyfrifo nifer gyfartalog y bobl a ddienyddiwyd bob dydd wrth drafod y creulondeb yn ystod teyrnasiad Harri'r VIII. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn creu graffiau cywir sydd wedi'u cyflwyno'n dda, er enghraifft wrth blotio'r llif presennol trwy wifren o wahanol hydoedd.

Mae llawer o ddisgyblion yn cydweithio'n dda wrth ymgymryd â gweithgareddau ffitrwydd cynhesu, arferion techneg saethu pêl-rwyd a thrafod gwerth agoriadau i ysgrifennu naratif.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Maent yn cyrraedd gwersi'n brydlon, yn cael eu paratoi'n briodol ac yn bwrw ymlaen â'u dysgu'n gyflym.

**Argymhelliad 2: Gwella ansawdd a chysondeb yr addysgu a'r asesu**

Cynnydd cryf o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr arolygiad craidd yn 2015, mae'r ysgol wedi rhoi ystod o strategaethau defnyddiol ar waith sydd wedi helpu i wella ansawdd yr addysgu a'r asesu.

Mae gan bron bob un o'r athrawon berthnasoedd gweithio cadarnhaol gyda disgyblion, ac mae llawer ohonynt yn rheoli eu dosbarthiadau'n dda. Mae gan lawer o athrawon ddisgwyliadau uchel priodol o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni mewn gwersi, er enghraifft defnyddio terminoleg wyddonol yn gywir wrth ddisgrifio camau treulio mewn gwyddoniaeth.

Caiff llawer o wersi eu cynllunio'n dda ac maent yn ymgorffori ystod addas o weithgareddau dysgu sy'n ennyn diddordeb disgyblion yn dda ac yn cefnogi cyflymder dysgu priodol. Mae'r gwersi hyn yn cynnwys gweithgareddau dechreuol effeithiol sy'n helpu sicrhau parhad mewn dysgu, a ffocws priodol ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Fodd bynnag, mewn rhai gwersi, nid yw'r gwaith yn ennyn diddordeb disgyblion yn ddigon da, ac nid yw'n darparu her addas, yn enwedig ar gyfer disgyblion mwy abl.

Mae llawer o athrawon yn defnyddio holi effeithiol i archwilio dealltwriaeth disgyblion. Mae ychydig iawn ohonynt yn gwneud defnydd helaeth a medrus o gwestiynau datblygiadol i annog disgyblion i ddadansoddi eu hesboniadau, ac ehangu arnynt.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae athrawon yn rhoi adborth llafar defnyddiol i ddisgyblion. Yn y mwyafrif o achosion, mae adborth ysgrifenedig athrawon i ddisgyblion ar agweddau sy'n benodol i bwnc ac agweddau llythrennedd ar eu gwaith yn hynod ddefnyddiol. Yn yr achosion hyn, gwneir defnydd effeithiol o gwestiynau dilynol i helpu disgyblion i wella'u gwaith. Mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn briodol, er enghraifft trwy ailddrafftio i wella adrannau o'u gwaith. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, mae adborth ysgrifenedig i ddisgyblion yn rhy arwynebol ac nid yw'n rhoi arweiniad digon clir iddynt ar sut i wella'u gwaith.

Mae'r ysgol yn olrhain a monitro cynnydd disgyblion yn dda. Mae hyn yn galluogi arweinwyr canol i nodi disgyblion sy'n tanberfformio a rhoi ystod o strategaethau cymorth addas ar waith.

**Argymhelliad 3: Sicrhau bod systemau rheoli perfformiad a rheoli llinell yn effeithiol o ran herio unrhyw danberfformio**

Cynnydd cryf o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi rhoi system gadarn a chefnogol ar waith ar gyfer rheoli perfformiad. Defnyddir y system hon yn effeithiol i fynd i'r afael â meysydd tanberfformio er mwyn gwella safonau ac ansawdd yr addysgu.

Mae uwch arweinwyr a llywodraethwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i roi her a chymorth priodol i staff, gan gynnwys pan nodir tanberfformio. Mae hyn yn cyfrannu at welliannau yn ansawdd yr addysgu.

Diwygiwyd trefniadau rheoli llinell yn briodol ac fe gaiff cyfrifoldebau eu dyrannu'n gytbwys, sy'n adlewyrchu blaenoriaethau gwella'r ysgol yn dda. Mae hyn wedi helpu sefydlu ffocws cryf ac ysgol gyfan ar wella deilliannau disgyblion, gan wella ansawdd yr addysgu a gwella medrau llythrennedd disgyblion.

Mae'r pennaeth a'i huwch dîm arweinyddiaeth yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i fwrw ymlaen ag ystod o strategaethau gwella effeithiol. Bu gwelliant yn ansawdd a chysondeb arweinyddiaeth ganol trwy raglenni cymorth mewnol ac allanol buddiol.

Mae gan yr holl arweinwyr a staff dargedau perfformiad penodol yn unol â phob un o dair blaenoriaeth allweddol yr ysgol. Caiff cynnydd o ran cyflawni eu hamcanion ei adolygu'n briodol.

Mae systemau rheoli perfformiad a rheoli llinell diwygiedig wedi cyfrannu at les gwell y disgyblion, ac maent yn dechrau effeithio'n gadarnhaol ar safonau.

**Argymhelliad 4: Sicrhau bod hunanarfarnu a chynllunio gwelliant yn cael effaith ar wella ansawdd addysgu, asesu a deilliannau**

Cynnydd cryf o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi rhoi trefniadau effeithiol ar waith i gryfhau ansawdd hunanarfarnu a chynllunio gwelliant. Mae'r prosesau hyn yn cyfrannu'n dda at welliannau yn ansawdd yr addysgu a'r asesu, ac at feithrin medrau llythrennedd disgyblion yn benodol.

Ceir cylch systematig a thrylwyr o weithgareddau sicrhau ansawdd sy'n darparu gwybodaeth berthnasol am lawer o feysydd gwaith yr ysgol. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys rhaglen reolaidd o arsylwadau gwersi a chraffu ar waith sy'n canolbwyntio'n briodol ar fedrau a chynnydd disgyblion. Mae'r ysgol yn cynnal arolygon defnyddiol o safbwyntiau disgyblion, rhieni ac athrawon hefyd.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ddadansoddiad cynhwysfawr, strwythuredig a chyfoethog o ran data o ddeilliannau ac effeithiolrwydd y ddarpariaeth ar draws yr ysgol. Mae'n darparu arfarniad trylwyr a chywir ar y cyfan o'r agweddau hyn. Mae uwch arweinwyr yn cynorthwyo arweinwyr canol yn dda i lunio adolygiadau adrannol defnyddiol sy'n cynnwys dadansoddiadau manwl o ddeilliannau disgyblion. O ganlyniad, mae arweinwyr ar bob lefel yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o gryfderau penodol, yn ogystal â meysydd allweddol i'w gwella.

Mae cynllun gwella'r ysgol yn amlinellu blaenoriaethau clir, lefel uchel, ac yn cynnwys mentrau addas sy'n canolbwyntio'n uniongyrchol ar godi safonau, datblygu medrau disgyblion a gwella ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Mae cynlluniau adrannol yn cynnwys ystod addas o gamau gweithredu sy'n mynd i'r afael â'r blaenoriaethau hyn yn dda. Mae targedau perfformiad yn briodol heriol ac yn rhoi ystyriaeth briodol i ddeilliannau blaenorol, cynnydd a pherfformiad disgyblion mewn ysgolion tebyg.

Ceir trefniadau defnyddiol i fonitro rhoi mentrau gwelliant allweddol ar waith. Fodd bynnag, nid yw'r arfarniadau hyn yn mesur effaith camau gweithredu penodol yn ddigon craff bob amser.

**Argymhelliad 5: Gwella ymddygiad disgyblion yn y dosbarthiadau lle mae eu haflonyddwch yn tarfu ar gynnydd disgyblion eraill**

Cynnydd cryf o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi rhoi polisi ymddygiad cadarnhaol ar waith sy'n amlinellu rolau a chyfrifoldebau disgyblion, rhieni, staff a llywodraethwyr yn glir. Mae trefniadau i gefnogi'r polisi hwn yn cynnwys cyflwyno system electronig ar gyfer cofnodi ymddygiad disgyblion. Defnyddir y system hon yn effeithiol i gydnabod ymddygiad da a nodi unrhyw achosion o ymddygiad gwael. Mae'r dulliau hyn yn

cyfrannu'n dda at ymddygiad da bron pob un o'r disgyblion mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwrtais a pharchus at oedolion ac at eu cyfoedion.

Mae rheolwyr cynnydd yn mynd ar deithiau dysgu defnyddiol i fonitro ymddygiad disgyblion. Mae hyn yn helpu sicrhau cysondeb o ran cymhwyso polisi ymddygiad yr ysgol. Yn ychwanegol, caiff staff hyfforddiant buddiol mewn rheoli ymddygiad, er enghraifft o ran defnyddio dulliau adferol. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn delio'n dda â'r achosion prin o ymddygiad gwael.

Mae'r ysgol wedi gwella'r ffordd y mae'n cyfathrebu â rhieni yn dda. Mae hyn yn cynnwys rhoi cofnod ymddygiad eu plentyn i rieni, yn ogystal â'u cofnodion ar bresenoldeb a chynnydd.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cyflogi swyddog cymorth ymddygiad ac mae wedi sefydlu ystafell anogaeth i gynorthwyo disgyblion sydd mewn perygl o dangyflawni. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i arfarnu effaith y mentrau hyn.

**Argymhelliad 6: Sicrhau bod llywodraethwyr yn defnyddio data perfformiad yn effeithiol i fonitro a herio tanberfformio, yn enwedig safonau ac ansawdd yr addysgu**

Cynnydd cryf o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr arolygiad craidd, mae uwch arweinwyr wedi gwella ystod, ansawdd ac eglurder y wybodaeth, gan gynnwys data perfformiad, a gaiff llywodraethwyr. Mae hyn yn helpu llywodraethwyr i fonitro a herio perfformiad yr ysgol yn briodol. Mae perthynas gref rhwng uwch arweinwyr a'r corff llywodraethol sy'n seiliedig ar yr arfer hon o rannu gwybodaeth yn agored a thryloyw.

Caiff llywodraethwyr adroddiadau manwl rheolaidd sy'n nodi tueddiadau ym mherfformiad disgyblion, gan gynnwys dadansoddiadau meincnod priodol. Maent hefyd yn derbyn adroddiad defnyddiol ar safon yr addysgu. Mae hyn yn helpu llywodraethwyr i ddeall yn glir yr heriau penodol sy'n wynebu'r ysgol o ran gwella ansawdd yr addysgu ac o ran codi safonau.

Caiff llywodraethwyr eu cynorthwyo'n dda i wella'u defnydd o ddata perfformiad allweddol, er enghraifft trwy fynychu cyfarfodydd uwch arweinwyr a rheolwyr cynnydd y cwricwlwm. Mae eu rhan yn y broses craffu ar waith wedi helpu cryfhau dealltwriaeth llywodraethwyr o'r agwedd hon ar waith yr ysgol hefyd, a'u gallu i ddwyn staff i gyfrif.

**Argymhelliad 7: Gwella'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd ar draws pob pwnc**

Cynnydd boddhaol o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi rhoi ystod addas o strategaethau ar waith i gefnogi datblygiad medrau llythrennedd disgyblion. Erbyn hyn, mae llawer o ddisgyblion yn creu gwaith ysgrifennu sy'n dechnegol gadarn ac yn defnyddio ystod addas o strategaethau darllen i gefnogi eu dysgu. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i nodi effaith lawn y strategaethau hyn.

Mae'r ysgol wedi gwneud defnydd effeithiol o'r profion darllen cenedlaethol i nodi gwendidau disgyblion mewn darllen, ac mae'n rhoi targed darllen i bob disgybl ym Mlynyddoedd 8, 9 a 10. Mae disgyblion a staff mewn meysydd pwnc allweddol yn gwybod ac yn deall y targedau hyn, ac yn darparu cymorth defnyddiol ac yn monitro cynnydd yn briodol.

Erbyn hyn, mae cofnodion diwygiedig ar arsylwi gwersi a chraffu ar waith yn canolbwyntio'n dda ar ddatblygiad medrau disgyblion. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd addas o'r cofnodion hyn i fonitro cynnydd disgyblion ac arfarnu'r cyfleoedd dysgu a ddarperir. O ganlyniad, erbyn hyn, mae'r ysgol wedi nodi agweddau cyffredin ar ddarllen ac ysgrifennu y mae angen eu gwella. Mae cyfleoedd dysgu i fynd i'r afael â'r medrau hyn ar draws y cwricwlwm wedi cael eu hadolygu a'u gwella yn unol â hynny.

Mae'r ysgol yn ymwybodol na fydd darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau yn unig yn arwain at welliant digon cyflym ynddo'i hun. O ganlyniad, mae'r cydlynydd llythrennedd a staff y consortiwm wedi darparu hyfforddiant defnyddiol ar gyfer athrawon i'w helpu i gynorthwyo disgyblion yn effeithiol.

## Argymhellion

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn, a gwella arno, dylai'r ysgol barhau i gynnal lefel y cynnydd y mae eisoes wedi'i wneud, a pharhau i fynd i'r afael â'r argymhellion arolygu hynny ble mae angen rhagor o gynnydd.